

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd Ddydd Mawrth 18 Ionawr 2021 am 10:00 drwy fideogynadledda

Yn bresennol: John Shakeshaft (Cadeirydd), yr Athro Colin Riordan, Hannah Doe, Tomos Evans, Yr Athro Karen Holford, Chris Jones, Jan Juillerat, Dr Steven Luke, yr Athro Stuart Palmer a David Simmons.

Y sawl oedd yn bresennol: Dev Biddlecombe, Ms Katy Dale (Cofnodion), Rashi Jain, Alison Jarvis, Sue Midha, Melanie Rimmer, Claire Sanders a Rob Williams.

Ymddiheuriadau: Yr Athro Kim Graham.

714 Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

715 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Kim Graham.

716 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020 (20/342C) ac ar 15 Rhagfyr 2020 (20/343C) fel cofnod gwir a chywir ac fe'u cymeradwywyd i'w llofnodi gan y Cadeirydd.

717 Materion yn Codi

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/344, 'Materion yn Codi'.

718 Datgan Buddiannau

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor o'u dyletswydd i ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Ni ddatgelwyd unrhyw ddatganiadau Buddiant.

719 Adroddiad gan yr Is-Ganghellor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/351C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i FRC'. Gwahodwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 719.1 bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi'u gohirio tan 22 Chwefror 2021, yn dilyn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ac ar sail cyngor mewnol; roedd addysgu wyneb yn wyneb yn parhau ar gyfer y pynciau hynny a oedd yn gofyn amdano (e.e. ffiseg);
- 719.2 y byddai'r Brifysgol yn parhau i adolygu'r dyddiad hwn, yn enwedig o ystyried lefelau uchel o bryder ynghylch ansicrwydd dyddiadau dechrau;
- 719.3 bod myfyrwyr yn cael dychwelyd i Gaerdydd cyn dechrau addysgu wyneb yn wyneb a bod nifer o fyfyrwyr wedi dychwelyd i Gaerdydd i barhau â'u hastudiaethau o bell;
- 719.4 bod y Brifysgol wedi cytuno i ad-dalu ffioedd preswyllo i fyfyrwyr nad oeddent y defnyddio eu llety oherwydd y canllawiau presennol; byddai hyn yn cael ei ad-dalu ym mis Ebrill pan gesglir y ffioedd;

- 719.5 roedd y Brifysgol wrthi'n diweddarau'r gyllideb i adlewyrchu'r ad-daliadau hyn ac roedd ganddynt arian wrth gefn ar gyfer hyn; heddiw, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol gwerth £40m ar gyfer hyn ond nid oedd canllawiau ynghylch gwario'r cyllid hwn yn hysbys eto;
- 719.6 bod yr Ysgol Fusnes wedi cael ei tharo'n arbennig gan bandemig COVID, oherwydd nifer ei myfyrwyr a'i chysylltiad rhyngwladol;
- 719.7 bod gostyngiad wedi bod mewn ceisiadau Ôl-raddedig Rhyngwladol, ond roedd yn anodd cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd amseriad ceisiadau; roedd ceisiadau yn parhau i fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol;
- 719.8 bod yr Ysgol Mathemateg a'r Ysgol Cyfrifiadureg wedi parhau i ehangu; roedd hyn yn elwa ar y gallu i addysgu'r pynciau hyn o bell;
- 719.9 bod nifer targed y myfyrwyr ar gyfer 2021/22 wedi cael ei bennu ond na ellid rhoi gwybod amdanynt eto oherwydd y dyddiad cau estynedig ar gyfer UCAS ac oedi wrth gadarnhau ffigurau'r flwyddyn gyfredol; y gobaith oedd y byddai'r rhain yn cael eu hadrodd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor;
- 719.10 o ran partneriaethau strategol â Tsieina, roedd y Brifysgol wedi cymryd cyngor gan GCHQ a'r Ganolfan Seiberddiogelwch, a oedd wedi cadarnhau nad oedd angen newid y trefniadau presennol;
- 719.11 bod y gostyngiad mewn dyfarniadau ymchwil o'i gymharu â'r tair blynedd flaenorol yn ganlyniad i effaith COVID a'r angen i ganolbwyntio ar ddarpariaeth addysgu; y gobaith oedd y byddai hyn yn dychwelyd i lefelau oedd yn agosach at y rhai blaenorol ar ôl i'r addysgu dychwelyd i'r sefyllfa arferol;
- 719.12 bod y model dyrannu llwyth gwaith yn cael ei adolygu oherwydd yr amgylchiadau presennol ac fel rhan o'r gwaith adnewyddu academiaidd;
- 719.13 bod y Brifysgol yn adolygu gorbenion ac adennill costau ar gyfer gweithgarwch ymchwil er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol.

720 Adroddiad gan yr Is-Bwyllgor Buddsoddi a Bancio

Dderbyniwyd ac a ystyriwyd papurau 20/345C, 'Adroddiad gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio'. Gwahoddwyd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 720.1 y byddai'r cynnig tap bondiau yn cael ei drafod o dan eitem ar wahân ar yr agenda;
- 720.2 y byddai'r Pwyllgor, wrth symud ymlaen, yn edrych ar y gronfa tap bondiau ac Ad-dalu Bondiau, prosiectau a fyddai'n elwa ar gael eu hariannu o'r tap bondiau, a llwyddiant prosiectau a ariannwyd o'r blaen;
- 720.3 byddai'r Pwyllgor hefyd yn edrych ar y rheolwyr buddsoddi a'u cylchoedd gwaith, er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau'n briodol;

720.4 bod portffolios â sylfaen fwy thematig wedi perfformio'n dda yn ystod yr ansicrwydd economaidd diweddar, tra oedd y rhai a oedd yn canolbwyntio'n fawr ar y DU wedi perfformio'n llai da.

721 Penderfyniadau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol a Wnaed o dan Awdurdod Dirprwyedig

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/346C, 'Penderfyniadau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol a wnaed o dan Awdurdod Dirprwyedig'.

722 Dangosfwrdd Adnoddau Dynol

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/357C, 'Dangosfwrdd Adnoddau Dynol'. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

722.1 bod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am broffil y staff ar gyfer chwarter cyntaf y sesiwn academaidd, o 1 Awst i 31 Hydref 2020;

722.2 bod gostyngiad o 2.3% yn y cyflenwad staff cyffredinol yn ystod y cyfnod adrodd; roedd swyddi mewn sefydliadau wedi gostwng 71.48 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) a swyddi y tu allan i sefydliadau wedi gostwng 116.01 CALI, tra bod swyddi a ariennir gan brosiectau wedi cynyddu 10.60 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a swyddi a ariennir yn allanol gan 30.40 CALI;

722.3 bod y diwrnodau cyfartalog cyflogeion a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch ychydig yn uwch na chyfartaledd y sector, ond roedd y diwrnodau hirdymor a gollwyd wedi gostwng o 55% i 54%;

722.4 bod y Brifysgol yn parhau i fod yn sensitif iawn i'r arwyddion bod menywod yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau gofal yn ystod cyfnodau presennol y cyfnod clo ac addysg gartref; roedd y Brifysgol yn awyddus i gynniig hyblygrwydd mewn patrymau gwaith a llwyth gwaith i helpu staff yn ystod y cyfnod hwn;

722.5 bod y Brifysgol yn parhau i ymchwilio i fanteision posibl y cynllun ffyrlo mewn rhai ardaloedd;

722.6 bod staff yn parhau i gael eu hannog i gymryd eu gwyliau blynyddol lle bo hynny'n bosibl;

722.7 bod cyfanswm y cyfrif yn fwy nag ar yr un pryd y llynedd a bod hyn yn rhannol oherwydd newidiadau yng nghyfanswm y cyfrif (e.e. cynnwys goruchwylwyr a oedd wedi cael eu hesemptio o'r blaen).

Penderfynwyd Y Canlynol

722.8 ymchwilio i'r posibilrwydd o adrodd ar ffigurau staff dros dro yn yr adroddiad.

723 Adroddiad Cyllid (Cyfrifon Rheoli Ariannol)

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/347C, 'Adroddiad Cyllid'. Gwahoddwyd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 723.1 y byddai'r adroddiad yn cwmpasu cyfrifon mis Tachwedd a byddai diweddariadau llafar yn cael eu darparu lle bo hynny'n bosibl;
- 723.2 [Hepgorwyd]
- 723.3 [Hepgorwyd]
- 723.4 bod y cynnydd mewn incwm ffioedd dysgu yn gwrthbwysu'r diffyg mewn incwm ymchwil;
- 723.5 bod ffigurau cyflog yn parhau'n llai na'r gyllideb oherwydd rheolaethau recriwtio ac oedi rhwng staff sy'n gadael ac yn cymryd lle'r rhai sy'n dechrau;
- 723.6 ei bod yn rhy fuan i benderfynu a fyddai'r sefyllfa cyn y gyllideb yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn, o ystyried y risgiau a'r ansicrwydd parhaus.

724 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynllunio a Chyllidebu ar gyfer 2021/22 a Thu Hwnt

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/378HC, 'Diweddariad ar Gynllunio a Chyllidebu ar gyfer 2021/22 a Thu Hwnt'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 724.1 [Hepgorwyd]
- 724.2 [Hepgorwyd]
- .1 [Hepgorwyd]
- .2 [Hepgorwyd]
- .3 [Hepgorwyd]
- 724.3 [Hepgorwyd]
- 724.4 [Hepgorwyd]
- 724.5 [Hepgorwyd]
- 724.6 [Hepgorwyd]
- 724.7 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd Y Canlynol

- 724.8 sicrhau bod y materion sensitif a nodwyd yn 724.2 wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg.

725 Cynnig Tap Bondiau

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/366C, 'Diweddariad ar Dap Bod'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 725.1 bod y Brifysgol wedi ymgysylltu â Rothschild i gynorthwyo gyda'r prosiect, a oedd hefyd wedi bod yn ymwneud â chyhoeddi bondiau yn y lle cyntaf;
- 725.2 bod y prospectws wedi cael ei gyflwyno i'r FCA yr wythnos diwethaf a bod disgwyl adborth;
- 725.3 bod Lloyds yn arwain ar y cyflwyniad i'r gymuned fuddsoddwr;
- 725.4 y byddai buddsoddiad o'r tap bondiau yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn meysydd gofal iechyd ac addysg ddigidol;
- 725.5 y byddai unrhyw arian a dderbynnir dros £[Hepgorwyd] yn cael ei roi yn y Gronfa Ad-dalu Bondiau (BRF);
- 725.6 bod CCAUC wedi bod yn gefnogol i'r cynnig a gofynnid yn ffurfiol iddynt gymeradwyo'r cynnig cyn bo hir;
- 725.7 y byddai'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio yn adolygu'r dogfennau tap bondiau yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2021 ac yn argymhell ei gymeradwyo i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2021; Gofynnir hefyd i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio a'r Prif Swyddog Ariannol i gysylltu â'r rhedwyr llyfrau;
- 725.8 ei bod yn bwysig sicrhau bod y risgiau'n cael eu nodi'n glir yn y gwaith papur perthnasol;
- 725.9 bod angen i'r Brifysgol sicrhau bod enillion da ar unrhyw fuddsoddiad a wnaed gyda chyllid bondiau ac roedd y Brifysgol yn adolygu'r gyfradd enillion sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau a dderbyniodd arian bondiau.

Penderfynwyd Y Canlynol

- 725.10 bod Cadeirydd y Cyngor wedi dirprwyo'r holl bwerau angenrheidiol (gyda'r pŵer i is-ddirprwyo) i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i'w alluogi i ystyried a chymeradwyo'r dosbarthiad tap;
- 725.11 Dirprwyodd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yr holl bwerau angenrheidiol (gyda'r pŵer i is-ddirprwyo) i'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio i'w alluogi i ystyried a chymeradwyo'r dosbarthiad tap.

726 Diweddariad ar CIC

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/349C, 'Diweddariad ar Gampws Arloesedd Caerdydd'. Gwahoddwyd y Dirprwy Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

- 726.1 bod y papur wedi nodi bod y digwyddiad iawndal cyfnod 2 wedi'i gynnal hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, ond dylai hyn ddarllen mawrth 2021;
- 726.2 bod cynnydd wedi bod yn y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect oherwydd l nifer o aelodau allweddol y prosiect (mewnol ac allanol) adael eu rolau; roedd y Brifysgol yn gweithio i liniaru'r risg hon ac yn credu bod y llywodraethu presennol yn parhau i fod yn addas i gyflawni'r prosiect;
- 726.3 bod penodi cyfarwyddwr prosiect bellach yn mynd rhagddo;
- 726.4 bod risg o hyd ynghylch ceisiadau am wybodaeth a bod gwaith yn cael ei wneud i ddatrys y rhain cyn gynted â phosibl;

726.5 y dylid adolygu'r risg o wireddu budd-daliadau.

727 Gweithred Amrywio Compound Semi-Conductor LTD

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/348HC, 'Gweithred Amrywio i Compound Semi-Conductor Ltd'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

727.1 [Hepgorwyd]

727.2 [Hepgorwyd]

727.3 [Hepgorwyd]

728 Aelodaeth O Bartneriaeth SETsquared

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/365C, 'Aelodaeth o Bartneriaeth SETsquared'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd Y Canlynol

728.1 bod Partneriaeth SETsquared yn bartneriaeth eiddo deallusol rhwng nifer o brifysgolion yn Ne-orllewin Lloegr; roedd gan y Brifysgol gysylltiadau â'r bartneriaeth drwy GW4 a'u rhaglenni;

728.2 bod gan y Brifysgol berthynas ag IP Fusion o'r blaen ond nad oedd wedi datblygu unrhyw berthynas eiddo deallusol bellach yn y modd hwn ers hynny;

728.3 y byddai ymgysylltu â'r bartneriaeth yn helpu i ddatblygu strategaeth ymchwil y Brifysgol drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i academyddion ynghylch eiddo deallusol a chamfanteisio'n fasnachol ar hyn;

728.4 bod aelodaeth o'r bartneriaeth yn £[Hepgorwyd] y flwyddyn;

728.5 y gallai fod cyfle i ddatblygu cwmni cyfyngedig oherwydd y bartneriaeth hon er budd pellach i'r Brifysgol, ond roedd hyn mewn trafodaethau cynnar iawn;

728.6 mai'r Athro Kim Graham (Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter) a Dave Bembo (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi) fyddai cynrychiolwyr y Brifysgol ar y bartneriaeth;

728.7 bod Jan Juillerat wedi gadael y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

Penderfynwyd Y Canlynol

728.8 argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo ymuno â phartneriaeth SETsquared.

729 Unrhyw Fater Arall

Nodwyd Y Canlynol

729.1 [Hepgorwyd]

730 Agenda'r Cyfarfod Nesaf

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/350, 'Agenda'r cyfarfod nesaf 19 Mai 2020'.